| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mehefin 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi adborth i Aelodau ar gyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Mai 2013.

## 2 CEFNDIR

2.1 Fel y mae Aelodau yn gwybod, sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2011. Mae'r Fforwm yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau awdurdodau gogledd Cymru ynghyd â'u Swyddogion Monitro.

2.2 Mae'r Fforwm yn cyfarfod pob chwarter ac yn cael ei hwyluso gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

2.3 Yn anffodus, nid oedd modd i Gadeirydd, Is-Gadeirydd na Swyddog Monitro Sir Ddinbych fynychu'r cyfarfod diwethaf ar 20 Mai 2013.

2.4 Rydym ni wedi derbyn adborth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac rydym ni'n gobeithio y bydd y cofnodion ar gael cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mehefin.

2.5 Bu i'r Fforwm dderbyn crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd o ran y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2013.

2.6 Bu i'r Fforwm hefyd drafod y ffordd y byddai'n trefnu ei gyfarfodydd yn y dyfodol.

2.7 Cytunwyd y byddai'r Fforwm yn cynnal cyfarfodydd ar draws y rhanbarth fel bod pob awdurdod yn ei dro yn cael gwesteio cyfarfod. Bydd y trefniadau o ran casglu rhaglenni ac ati yn dal yn cael eu trefnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd pob awdurdod yn dewis rhywun i gadw cofnodion y Fforwm pan mae'r cyfarfod yn eu sir.

2.8 Nid oes disgwyl bellach i Swyddogion Monitro fynychu pob cyfarfod. Yn hytrach, bydd Swyddog Monitro'r awdurdod sy'n gwesteio yn mynychu ac yn darparu cyngor i'r Fforwm. Bydd y Swyddog Monitro yn cysylltu â'r Swyddogion Monitro eraill cyn y cyfarfod i sôn am faterion i'w trafod ac i ddarparu adborth ar ôl y cyfarfod.

2.9 Cytunwyd y bydd pob cyfarfod o'r Fforwm yn cynnwys elfen o hyfforddiant i'r Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion.

2.10 Bydd Cynllun Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo'r Fforwm i ganolbwyntio ar eu gwaith.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau ar drefniadau gweithio arfaethedig newydd y Fforwm.